**Emily Bradbury-Evans,** Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

## Un Farwolaeth Arall

Mae'n fywyd ofnadwy. Dwi'n poeni am Timothy. Mae e wedi rhedeg i ffwrdd. Dim ond un ar bymtheg yw e. Fy machgen druan. Ar ôl i'w dad farw yn ymladd yn Ffrainc, mae'r bachgen yna wedi bod mor drist, bron mor drist a fi.

Mae Tim wedi siarad non stop am ymuno â'r ymladd am wythnosau, misoedd hyd yn oed. Mae'n debyg ei fod wedi mynd i ymuno.

Tad Timothy yw'r enghraifft gorau o sut y gall camgymeriad bach arwain at farwolaeth. Yr unig veth wnaeth e oedd dwyn bach o fara i fwydo ein plant prydferth. Aeth e i'r llys a rhoddon nhw ddau opsiwn iddo - carchar neu ymuno â'r rhyfel. Wrth gwrs dewisiodd y rhyfel

Cefais y llythyr tua pedair wythnos un ôl, llythyr wnaeth roi'r ffeithiau am beth ddigwyddodd.

Aros funud, dwi'n gweld y dyn post yn dod. Pam yn y byd mae'r ddyn post yma? Mae ganddo amlen frown. O Dduw!

Paid â digalonni. Efallai mai ganTimothy yw er mwyn i mi gwybod ei fod iawn. Bydd ei chwaer mor falch o glywed ganddo. Unrhyw beth, unrhyw beth ond marwolaeth arall.